# Nodiadau Canllaw ar gyfer Cais am Ganiatâd i Ddraenio Tir i Gwrs Dŵr Cyffredin

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn i chi lenwi'r ffurflen.

**Os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth yn y nodiadau cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar waelod y ffurflen hon.**

**Mae'r nodiadau canllaw hyn yn rhoi gwybodaeth i chi i'ch helpu i lenwi'r cais am Ganiatâd Draenio Tir i Gwrs Dŵr Cyffredin.**

Cyn llenwi'r ffurflen argymhellir eich bod yn cysylltu â ni i gael cyngor am eich cynnig. Dan Ddeddf Draenio Tir 1991 rydych angen caniatâd os ydych eisiau adeiladu cwlfert neu strwythur (fel gored) i reoli llif y dŵr ar unrhyw gwrs dŵr cyffredin.

**Mae tâl o £50 am bob strwythur neu weithrediad ar gyfer ceisiadau a wneir dan y Ddeddf Draenio Tir.**

**Dilynwch y canllaw hwn i'ch helpu i osgoi unrhyw oedi gyda'ch cais.**

**Cynnwys**


**1. Amdanoch chi, yr ymgeisydd**
**2. Manylion yr Asiant**
**3. Buddiant yn y Tir**
**4. Lleoliad y Gwaith**
**5. Disgrifiad a Phwrpas y Gwaith**
**6. Cynlluniau a Thrychiadau**
**7. Manylion Adeiladu**
**8. Buddiannau Asiantaeth yr Amgylchedd**
**9. Caniatâd Cynllunio**
**10. Cynnal a chadw'r strwythur**
**11. Effaith ar yr Amgylchedd**
**12. Rhestr Wirio**
**13. Deddf Diogelu Data**
**14. Datganiad**

## 1. Amdanoch chi, yr ymgeisydd

Rhowch eich enw llawn neu enw eich sefydliad. Mae'n rhaid i chi roi eich cyfeiriad llawn yn y Deyrnas Gyfunol. Y cyfeiriad a roddwch fydd y cyfeiriad y cofrestrir eich Caniatâd Draenio Tir a bydd yn cael ei ddangos ar unrhyw Ganiatâd Draenio Tir a roddir gennym.

Os ydych yn ymgeisio fel cwmni, rhowch gyfeiriad eich swyddfa a gofrestrwyd gyda Tŷ'r Cwmnïau. Os yw'r cyfeiriad yma y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol, rhowch gyfeiriad eich prif swyddfa yn y DG. Ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais os nad ydych yn rhoi cyfeiriad yn y DG i ni.

'Rydym angen rhifau ffôn i gysylltu â chi os oes gennym unrhyw ymholiadau am eich cais a rhif ffôn y tu allan i oriau rhag ofn y bydd problemau tu allan i oriau.

## 2. Manylion yr Asiant

**Pwy fedrwn ni gysylltu ag ef/hi am eich cais**

Rhaid i'r holl ymgeiswyr lenwi'r rhan yma. Mae angen i chi roi gwybod i ni pwy y dylem gysylltu ag ef/hi am eich cais am ganiatâd Draenio Tir. Cewch enwebu rhywun arall i'r unigolyn a enwir ar unrhyw ganiatâd Draenio Tir (er enghraifft, ymgynghorydd neu asiant). Rydym angen eich enw llawn chi, neu'r person perthnasol, cyfeiriad a manylion cyswllt.

## 3. Eich buddiant chi yn y tir

Rydym angen gwybod pa fuddiant sydd gennych yn y tir ble y gwneir y gwaith (er enghraifft, os mai chi yw perchennog y tir neu'r tenant). Os oes unrhyw waith i'w wneud ar dir nad ydych yn berchennog arno yna byddwch angen caniatâd gan bwy bynnag sy'n berchen arno.

## 4. Lleoliad y gwaith arfaethedig

Mae angen i ni fedru adnabod yn ddidrafferth ble bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud. Rhowch fanylion am:

- Leoliad y safle;
- Enw'r cwrs dŵr; a'r;
- Cyfeirnod Grid Cenedlaethol – (12 ffigwr)

## 5. Disgrifiad a phwrpas y gwaith arfaethedig

Mae hi’n bwysig eich bod yn disgrifio'r hyn a fwriedir yn gywir ar gyfer y cais a wneir. Gadewch i ni wybod beth yw pwrpas y gwaith a nifer y strwythurau yr ydych angen caniatâd ar eu cyfer.

## 6. Cynlluniau a Thrychiadau

I ni ystyried eich cynigion rydym angen derbyn cynlluniau a lluniadau, wedi eu darlunio gan beiriannydd neu syrfëwr cymwys ac yn dangos Datwm Ordnans Newlyn (yr uchder uwchben lefel y môr).

Mae angen i chi ddarparu **pum** copi o’r holl luniadau perthnasol. Ni ddylai’r lluniadau fod yn fwy na maint **A1**, ac mae angen iddynt gynnwys yr isod.

**Cynllun Lleoliad**

Rhaid i hwn fod ar raddfa briodol ac wedi ei seilio ar fap yr Arolwg Ordnans. Dylai ddangos yn eglur lleoliad cyffredinol y safle ble bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei gynnal gan gynnwys nodweddion cyffredinol ac enwau strydoedd. Dylai hefyd ddangos y cwrs dŵr neu ffurfiau dŵr eraill yn yr ardal oddi amgylch.

**Cynllun Safle (trefniant cyffredinol)**

Rhaid i chi ddarparu cynllun o’r safle sy’n dangos:

- Y safle presennol, yn cynnwys unrhyw gyrsiau dŵr
- Eich cynigion
- Lleoliad unrhyw strwythurau sy’n gall dylanwadu ar hydroleg afonydd lleol, yn cynnwys pontydd, pibellau a dwythellau, ffyrdd o groesi’r cwrs dŵr, cwlfertau a sgriniau, argloddiau, waliau, arllwysfeydd ac ati; a
- Ysgolion pysgod presennol neu strwythurau a fwriadwyd i ganiatáu i bysgod fynd i fyny ac i lawr yr afon;

Dylai’r cynllun gael ei luniadu i raddfa briodol; a dylid nodi hyn yn glir.

**Trychiadau**

Ble fo gwaith yn llechfeddiannu i unrhyw gwrs dŵr yna dylech ddarparu trychiadau i fyny’r afon ac i lawr yr afon i’r gwaith arfaethedig. Dylid lluniadu trychiadau fel pe byddech yn edrych i lawr yr afon ar y cwrs dŵr a dylent gynnwys manylion am unrhyw nodweddion presennol ac arfaethedig a lefelau’r dŵr.

**Toriadau Hydredol**

Mae angen toriadau hydredol a gymerwyd ar hyd llinell ganolog y cwrs dŵr. Rhaid i’r rhain ddangos y nodweddion presennol a’r rhai arfaethedig gan gynnwys lefelau dŵr, lefelau gwelyau a strwythurau. Dylent ymestyn i fyny ac i lawr yr afon o’r gwaith arfaethedig.

**Darluniau manwl**

Diben y rhain yw dangos manylion y nodweddion presennol ac arfaethedig fel a ganlyn:

- Lluniadau dylunio manwl a thrychiadau.
- Y deunyddiau sydd i'w defnyddio ar gyfer unrhyw strwythur.
- Lleoliad unrhyw bibellau gwasanaeth neu geblau a all effeithio ar gynnal a chadw'r cwrs dŵr yn y dyfodol.
- Manylion unrhyw goed, prysglwyni, gwrychoedd, pwll neu wlypdir a all gael ei effeithio gan y gwaith arfaethedig.
- Manylion unrhyw waith plannu neu hadu.
- Argaeau a choredau (Rydym angen cynllun yn dangos graddau'r dŵr a gronnir (ei ddal yn ôl) o dan amodau arferol a llifogydd fel y gallwn asesu'r effaith posib ar dir ger yr afon.
- Rhaid i'r cynllun hefyd ddangos unrhyw ddraeniau tir gaiff eu heffeithio.)

## 7. Manylion Adeiladu

Rydych angen caniatâdau ar wahân i'r gwaith parhaol ac unrhyw waith dros dro sydd ddim yn rhan o'r gwaith parhaol. Gallai gwaith dros dro gynnwys, er enghraifft argau coffer (lle caeedig sy'n dal dŵr) ar draws cwrs dŵr neu wyriadau dros dro i ddŵr tra fo gwaith yn cael ei wneud.

Rydym angen gwybod sut yr ydych yn bwriadu ymgymryd â'r gwaith. Felly, mae angen i chi anfon 'datganiad dull' i ni gyda'ch cais sy'n cynnwys manylion o'r mesurau penodol yr ydych yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod unrhyw darfu yn cael ei gadw i'r lleiafswm a lleihau unrhyw effeithiau diangen tra bod y gwaith yn cael ei wneud.

Rydym angen gwybod pryd yr ydych yn bwriadu mynd ati i ymgymryd â'r gwaith a faint o amser y credwch y bydd yn ei gymryd. Pan fyddwch yn cynllunio'r gwaith mae angen i chi sicrhau eich bod wedi caniatáu digon o amser i ni ystyried eich cais.

Os rhoddir caniatâd bydd rhaid cwblhau'r gwaith cyn pen dwy flynedd o ddyddiad y caniatâd. Mae'n rhaid i chi roi o leiaf un mis o rybudd i ni o'ch bwriad i ddechrau'r gwaith.

## 8. Buddiannau Asiantaeth yr Amgylchedd

Ticiwch y blychau priodol.

Os ydych yn ateb 'ydyw' i unrhyw un o'r cwestiynau fe fyddwch mae'n debyg angen trwyddedau ychwanegol neu ganiatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn eich bod yn dechrau ar y gwaith.

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr holl gymeradwyon yr ydych eu hangen gennych cyn i chi gyflwyno eich cais am ganiatâd draenio tir. Bydd angen i ni weld copïau o unrhyw ganiatadau.

## 9. Caniatâd Cynllunio

Darparwch fanylion am unrhyw ganiatadau cynllunio sydd gennych neu yr ydych yn ymgeisio amdanynt sy'n berthnasol i'r cynnig yma.

## 10. Cynnal y Strwythur

Rydym angen gwybod pwy fydd yn gyfrifol am gynnal y strwythur yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi gorffen y gwaith.

## 11. Effaith ar yr Amgylchedd

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i warchod a gwella'r amgylchedd ac felly mae'n rhaid i ni ystyried effaith eich cynigion ar yr amgylchedd.

Bydd angen i chi ymgymryd â gwaith cloriannu amgylcheddol i asesu effaith eich gwaith. Dylech gysylltu â ni cyn i chi anfon eich cais atom fel y gallwn roi cyngor i chi ar hyn. Os nad ydych yn gwneud hyn, gallai olygu fod oedi gyda'ch cais.

Dylai'r gwerthusiad amgylcheddol adnabod yr holl effeithiau tebygol ar yr amgylchedd. Dylech ystyried effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y gwaith ar safleoedd a nodweddion o ddiddordeb a rhywogaethau o werth neilltuol. Os rhoddir caniatâd gall gynnwys amodau sy'n atal gwaith rhag digwydd yn ystod y tymor claddu wyau pysgod o Hydref 17eg i Ebrill 17eg. Bydd unrhyw amod sy'n golygu y bydd angen achub pysgod yn gorfod cael ei gydlynu gyda Asiantaeth yr Amgylchedd fydd yn codi tâl am yr achub.

Dylech gynnwys unrhyw fesurau penodol yr ydych yn bwriadu eu gwneud i gadw unrhyw darfu i leiafswm a lleihau unrhyw effeithiau diangen tra bod y gwaith yn mynd rhagddo.

Nodwch unrhyw gyfleoedd i wella gwerth amgylcheddol y safle. Gall hyn gynnwys creu nodweddion dŵr, plannu coed a phrysglwyni a fyddai fel arfer yn tyfu ar y safle, darparu blychau nythu i adar neu greu mannau cynaliadwy i fywyd gwyllt.

Os gofynnwyd i chi am werthusiad amgylcheddol fel rhan o'r caniatâd cynllunio mae'n rhaid i chi ei anfon atom gyda'r holl ddogfennau cefnogol eraill yr ydym eu hangen.

Os yw eich safle yn syrthio oddi fewn, ger neu yn gysylltiedig â safle natur gadwraethol dylech gysylltu â ni cyn gynted â phosib i drafod eich cynigion cyn i chi anfon eich cais atom.

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd mae'n rhaid i ni sicrhau nad oes gan y Caniatâd Draenio Tir effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar unrhyw safle a bennir yn y rheoliadau gan gynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (ACA)
- Safleoedd RAMSAR rhestredig; a

- Henebion Cofrestredig (HC)

Dan y Rheoliadau Cynefinoedd mae’n rhaid i ni ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru.Efallai y byddwch eisiau cysylltu â’r sefydliadau hyn eich hun i gael eu barn ar eich cynigion.

## 12. Rhestr Wirio

Ticiwch y dogfennau perthnasol yn yr adran yma fel ein bod yn gwybod beth yr ydych yn ei anfon.

## 13. Deddf Diogelu Data 1998

Mae’r adran yma yn nodi ein hawliau a’n cyfrifoldebau dan y Ddeddf Diogelu Data 1998.

## 14. Datganiad

Drwy arwyddo’r darn yma 'rydych yn datgan, cyn belled ag y gwyddoch, fod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych, yn cynnwys y map ac unrhyw ddogfennau cefnogol, yn gywir. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais sydd heb ei arwyddo.

- Os ydych yn gwneud cais fel cwmni sydd ag ymddiriedolwyr, rhaid i’r holl ymddiriedolwyr arwyddo’r datganiad.
- Os ydych yn ymgeisio fel cwmni cyfyngedig, mae’n rhaid i ysgrifennydd neu gyfarwyddwr y cwmni arwyddo’r datganiad.

**Camau nesaf**

Dychwelwch **bum** copi o’r ffurflen gais ynghyd â **phum** copi o’r holl luniadau a dogfennau cefnogol i’r cyfeiriad a roddir ar y ffurflen.

Os ydych angen cymorth i lenwi’r ffurflen, cysyllltwch â’r unigolyn a anfonodd y ffurflen atoch.

Os ydych yn hapus gyda'n gwasanaeth, gadewch i ni wybod. Mae o gymorth i ni os gellir adnabod ymarfer da ac mae hefyd yn  anogaeth i’r staff. Os nad ydych yn hapus gyda’n gwasanaeth gadewch i ni wybod sut y gallwn ei wella.